

EISTEDDFOD

Gwaith Pwyllgor Profiad Ymwelwyr a Marchnata – i gyfarfod am y tro cyntaf nes mlaen yn y flwyddyn newydd yn 2020.

1. Swyddogion y pwyllgor fydd yn arwain ar y gwaith a'r trafodaethau, sef:

- **CADEIRYDD:** Dyletswydd y Cadeirydd yw arwain ac ysbrydoli'r aelodau wrth gadeirio'r pwyllgorau yn effeithlon, gan gynrychioli barn y pwyllgor yn y Pwyllgor Gwaith.
- **YSGRIFENNYDD:** Prif swyddogaeth yr Ysgrifennydd yw cofnodi yn gywir a threfnus ac mewn Cymraeg graenus, gan anfon copi o'r cofnodion at y Trefnydd drwy e-bost o fewn tri diwrnod ar ôl y cyfarfod.

Bydd y Cadeirydd yn dod yn aelod o Bwyllgor Gwaith yr Eisteddfod, a gofynnir i'r Ysgrifennydd fynychu yn ei h/absenoldeb.

2. Rheolau Sefydlog – cyn gwneud dim arall, mae angen eu darllen a'u derbyn yn swyddogol fel pwyllgor.

3. Pwyllgor Profiad Ymwelwyr a Marchnata

Rôl y pwyllgor yw i rannu syniadau a phrofiadau yr aelodaeth o ddigwyddiadau a gwyliau eraill, er mwyn i'r Eisteddfod ddysgu a pharhau i ddatblygu i fod yn wyl apelgar ddeinamig i'w chynulleidfa graidd ac i ddenu ymwelwyr ac eisteddfodwyr newydd. Hefyd, cynorthwyo tîm marchnata'r Eisteddfod wrth hyrwyddo'r Wyl gan gynrychioli'r gymuned leol yn y gwahanol drefniadau ymarferol.

4. Prif waith y Pwyllgor Profiad Ymwelwyr a Marchnata

Bydd posib trafod unrhyw beth mewn gwirionedd fydd o fudd i ddatblygiad yr Eisteddfod. Dyma awgrymiadau o'r mathau o beth y gellid eu trafod (ddim mewn unrhyw drefn benodol):

- Profiadau ac argraffiadau cadarnhaol o wyliau / digwyddiadau eraill, gan gynnwys elfennau fel harddu, cyfeiriadaeth, rhannu gwybodaeth a hygyrchedd.
- Sut i ddenu cynulleidfaoedd newydd.
- Sut i godi ymwybyddiaeth o'r Eisteddfod yng Ngwynedd.
- Syniadau i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r Eisteddfod ar draws y Sir a'r ardaloedd cyfagos.
- Sut gall yr Eisteddfod fynd y 'filltir ychwanegol' o ran profiad cwsmer ac arferion da.
- Hanfodion gofal cwsmer mewn gwyl.
- Syniadau ar sut i godi ymwybyddiaeth gan ddefnyddio elfennau cyfathrebu newydd a blaengar yn ogystal ag elfennau mwy traddodiadol.
- Cynorthwyo gyda dosbarthu deunyddiau hyrwyddo o amgylch y Sir.
- Cynnig adborth wedi'r Eisteddfod ar wahanol elfennau o waith y pwyllgor yng nghyfarfod olaf y Pwyllgor Gwaith, ym Mis Tachwedd wedi'r wyl.
- Cynorthwyo i hel gwirfoddolwyr ar gyfer stiwardio'r Cyhoeddi â'r Wyl, gan fwydo mewn i waith yr is-bwyllgor Cyhoeddi a'r is-bwyllgor Gwirfoddoli (pwyllgorau prosiect cyfnod byr).
- Cynnig adborth a bwydo syniadau'r gymuned leol i drefniadau ymarferol a thechnegol yr Wyl.
- Sicrhau hygyrchedd ar draws yr wyl.

Gwenllian Carr - Pennaeth Cyfathrebu: gwenllian@eisteddfod.org.uk

Swyddfa'r Eisteddfod, Uned 15 Parc Busnes yr Wyddgrug, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1XP /0845 409 0400

Sioned Edwards - Dirprwy Bennaeth Artistig: sioned@eisteddfod.org.uk

Swyddfa'r Eisteddfod, 40 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5DU / 0845 409 0300